W CAPTEN

W Capten, beth yn y byd all fod?
Mae'r hen long yn dechre crynu
Mae yn symud dan dy dro'd
Ma'r criw i gyd wedi ein gad'el
'Ond ti a fi sydd nawr ar ôl
Yr unig ffordd yw tua'n blaene
Ni allwn fyth a throi yn ôl.

W Capten

W Capten, oes gobaith yn dy galon di?
Er i ti ddiodde' siom a methiant
Oes gennyt nerth i'th gymorth di?
Heb 'r un ffrind bellach wrth dy ochor
Ma'r golled yn effeithio'th ffydd
Fi'r cyfrifiadur, 'r unig gyfaill
Sy' gennyt ti ar ddiwedd dydd.

W Capten

Hanner ffordd drwy y gofod
Hanner ffordd rhwng nos a dydd
Be' sy' ar ôl i ti?

W Capten

© Geraint Griffiths